Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Y Gyfarwyddiaeth Addysg**
Canolfan Ddinesig, Oystermouth Road,
Abertawe SA1 3SN
www.abertawe.gov.uk

*Gofynnwch am:*
*Llinell Uniongyrchol:* 01792 636611
*E-bost:* taliadauPYD@abertawe.gov.uk
*Ein Cyf:*
*Eich Cyf:*
*Dyddiad:* 11 Gorffennaf 2022

Annwyl Riant/Warchodwr

**Cyflwyno prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd yn raddol i'r plant ieuengaf o fis Medi 2022**

O dymor newydd yr hydref o 5 Medi 2022 ymlaen, bydd pob plentyn Derbyn yn cael cynnig prydau ysgol am ddim. Mae hwn yn gam pwysig tuag at gyrraedd yr uchelgais gyffredin o sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn llwgu tra yn yr ysgol.

Mewn ymateb i'r cynnydd presennol mewn costau byw, mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Abertawe wedi ymrwymo i roi'r cynllun hwn ar waith yn gyflym a gofynnwn am eich amynedd wrth i ni ddatblygu ein darpariaeth arlwyo i sicrhau cyfnod gweithredu graddol llwyddiannus a gweithio tuag at ei gyflwyno i'r ysgol gyfan. Rydym yn gweithio'n galed i benderfynu pa mor fuan y gallwn gyflwyno'r cynnig i blant blynyddoedd eraill a rhoddir rhagor o wybodaeth pan fydd y manylion yn gliriach.

Mae buddion eraill ar gael i'r rheini ar incwm isel, fel grant gwisg ysgol a chostau llai ar gyfer teithiau ysgol. Gellir gwneud ceisiadau ar-lein am gymhwysedd yma: www.abertawe.gov.uk/prydauysgolamddim.

Yn gywir

Helen Morgan-Rees
Cyfarwyddwr Addysg

I dderbyn yr wybodaeth hon mewn fformat arall neu yn Saesneg, cysylltwch â'r person uchod.
To receive this information in alternative format, or in Englishease contact the above.

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL